

GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM DDYFODOL DISGLEIRIACH



Uchelgais
Meddwl yn flaengar, croeseuau ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol

Agored
Bod yn agored i synwadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.

Cydwethio
Fel tim sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parhau amrywiol ac wedi ymrwngi i ddiarparu gwasanaethau o safon.

Balchder
Rydyn ni'n ymfalchïo yn Bro Morgannwg, ac yn falch o wasanaethau'n cymunedau a bod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a sut y byddwn yn eu cyflawni.

AMCAN ①

GWEITHIO GYDA, A THROS EIN CYMUNEDAU

Rydym eisiau eich cynnwys chi a rhoi gwybod i chi am ein gwaith. Rydym eisiau newid y ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Rydym eisiau darparu gwasanaeth cwsmeriaid da sy'n bodloni gwahanol anghenion. Rydym am i'w staff a'n Haelodau allu gwneud eu gorau.



AMCAN ②

CEFNOGI DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

Rydym eisiau sicrhau bod pob person yn cael y cyfle i ddysgu mewn amgylcheddau modern. Rydym eisiau rhoi cefnogaeth, cyngor a chyfluoedd i bobl i'w helpu gyda swyddi, arian a sgiliau. Rydyn ni eisiau helpu pobl i wirfoddoli. Rydym eisiau gwneud y Fro yn lle gwell i fyw, gweithio a theithio ynddi.



AMCAN ③

CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

Rydym eisiau i bawb fyw bywydau iach ac egniol ac am annog cerdded a beicio. Rydym am i bawb fwynhau hamdden, y celfyddydau a diwylliant. Rydym am wneud yn siwr bod pawb yn cael y cymorth a chefnogaeth y mae eu hangen arnynt. Rydym eisiau cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau a chael mynediad at dai o safon.



AMCAN ④

PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

Rydym eisiau gofalu am a gwarchod ein hamgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn cydwethio ag eraill i gynnal cyfleusterau lleol megis tai bach cyhoeddus, parciau a mannau chwarae. Byddwn yn lleihau gwastraff ac yn gostwng ein hallyriadau carbon ac yn lleihau'r effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Byddwn yn gweithio i leihau llygredd a llifogydd.


PUM Ffordd o Weithio

Drwy ymsefydlu'r pum ffordd o weithio mae'r Cyngor yn gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf yw:

- Hirdymor
- Cynnwys
- Integredig
- Cydwethredu
- Hatal

NODAU LLES CENEDLAETHOL

Noda'r tabl isod y saith nod lles cenedlaethol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni'n effeithiol i:





WRTH DDATBLYGU'R CYNLLUN CORFFORAETHOL HWN A'N BLAENORIAETHAU DROS Y PUM MLYNEDD NESAF RYDYM WEDI YSTYRIED:

- beth mae ein trigolion wedi dweud wrthym**
- ymrwmiadau** a wnaethom i gyflawni gyda'n partneriaid e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro
- ein gwbyodaeth a'n dealltwriaeth o'r ardal leol a'r gymuned leol**
- arfer gorau** a'r hyn y gwyddom sy'n gweithio'n lleol
- ein dyletswyddau statudol**
- barn ein partneriaid**
- ein Cynllun Cydraddoldeb strategol** sydd wedi'i ddatblygu'n gyfochrog
- yr adnoddau sydd ar gael i ni**
- ein cyflawniadau** wrth gwblhau'r Cynllun Corfforaethol diwethaf
- cyngor a chymorth** gan Gomisïynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg, Plant, Pobl Hyn, a Chydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- cyngor ac argymhellion** gan ein rheoleiddwyr a'n harolygwyr

CYLLIDEB GWARIANT

Yn 2019/20 cafodd ein cyllideb ei rhannu ar draws y meysydd canlynol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.



CYNLLUNIO INTEGREDIG

Mae cynllunio integredig yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn gweithio drwy sefydlu Bwrdd Mewnwelediad y Cyngor

Mae'r Cynllun yn rhedeg o 2020-2025 a phob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r hyn rydym wedi'i gyflawni, meysydd sy'n peri pryder a sut rydym wedi cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Byddwn hefyd yn cynhyrchu Cynllun Cyflawni Blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf i wneud cynnydd pellach i gyflawni ein hamcanion.